PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 3 Ionawr 15, 2026 50c.

# Dathliadau Nadolig capel Hope-Siloh, Pontarddulais

Fel y disgwylir, roedd cyfnod y Nadolig yn un prysur llawn dathliadau yn y capel. Cafwyd noson i'n rhoi yn hwyl yr ŵyl, wrth i ni gynnal noson creu torch yn festri'r capel i godi arian i Maggie's. Hyfryd oedd gweld y festri fawr dan ei sang gydag aelodau a ffrindiau'r capel.





### Cinio a ffair

Wrth gwrs, mae'r Nadolig yn gyfnod i ffrindiau ddod at ei gilydd a chymdeithasu a chafwyd noson hyfryd yng nghinio Nadolig y dosbarth Beiblaidd yn y Bridge, Llangennech. Cynhaliwyd ein ffair Nadolig blynyddol ar 6 Rhagfyr a chodwyd arian er mwyn parhau i noddi merch o'r enw Phul Kumani o Nepal drwy World Vision. Yn y cyfnod hwn, rhaid gwneud ein gorau i helpu eraill, felly cafodd plant yr ysgol Sul gyfle i fynd i Tesco, er mwyn siopa ar gyfer y banc bwyd lleol. Roedd y plant wrth eu bodd yn dewis danteithion amrywiol!

### Drama'r Geni

Uchafbwynt unrhyw ddathliadau Nadolig yw drama'r geni. Eleni cafwyd perfformiad gwych gan blant ifancaf y capel gyda phlant hŷn yn gwneud sgets gan ddynwared swyddogion y capel a'r bobl ifanc yn cymryd y rhannau arweiniol. Yn ystod y perfformiad, braf oedd clywed band y capel yn perfformio a diolch i Fand Tref Pontarddulais am ddod i'n cefnogi unwaith yn rhagor. Dilynwyd y gwasanaeth gydag ymweliad gan Siôn Corn a pharti i aelodau'r ysgol Sul. Dros y misoedd diwethaf mae ein Clwb Babanod wedi mynd o nerth i nerth a hyfryd oedd cael y cyfle i fwynhau parti bach gydag aelodau'r clwb ar fore dydd Mercher 17 Rhagfyr. Codwyd £200 gan y Clwb Babanod er mwyn talu am dalebau Smyths Toys i deuluoedd sy'n mynychu'r banc bwyd lleol.

### Oedfaon a charolau

Ddydd Sul cyn y Nadolig, cafwyd gwasanaeth boreol bendithiol yng ngofal yr aelodau ac yn y nos cafwyd

*parhad ar dudalen 2*

# Nadolig yng Ngheredigion

Ar y Sul olaf cyn y Nadolig cafwyd gwasanaethau bendithiol tu hwnt i ddathlu genedigaeth y Gwaredwr ar y Nadolig. Yng nghapel Pisgah, Talgarreg daeth tyrfa lu ynghyd i ddathlu a llawenhau yn nyfodiad Crist i'r byd. Gorffennwyd y dathliadau hefo te ar ddiwedd y gwasanaeth. Casglwyd dros £600 at Ward y Plant, Ysbyty Glangwili. Diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u hymroddiad.

Yng nghapel Glynarthen bu deg o ddisgyblion yr ysgol Sul yn ein hatgoffa ni o ddrama'r Geni, gan ddilyn y doethion at y preseb. Dilynwyd y seren a chafwyd y fraint o wrando ar y bobl ifanc yn canu ac yn darllen rhannau arbennig am y Nadolig. Cafwyd te ar ddiwedd y gwasanaeth, gyda diolch i wragedd capel Glynarthen am eu croeso a'u paratoadau.

**Carys Ann**





# Yr Adfent a'r Flwyddyn Newydd

## Myfyrdod Nodion Seion Aberystwyth, Rhagfyr/Ionawr 2025/26

Ar y Nadolig cawn ddathlu gwyrth yr ymgnawdoliad – Duw yn dyfod yn ddyn. 'A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio (pabellu) yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.' (Ioan 1:14).

'Cadarn Iôr a ddaeth ei hun,
gwnaeth ei babell gyda dyn…'
(Charles Wesley)

### Immanuel

Dwy fil o flynyddoedd yn ôl clywyd crio baban bach ym Methlehem a'i enw, Immanuel. Ystyr yr enw hwnnw yw, 'y mae Duw gyda ni.' (Mathew 1:23). Y plentyn hwnnw, wedi iddo dyfu'n ddyn sydd wedi ein dysgu nad unben yw Duw yn barod i gefnu ar ei bobl yn wyneb unrhyw anufudd-dod iddo, na hyd yn oed un oedd yn barod i helpu'r edifeiriol o bell. Yn yr Arglwydd Iesu Grist mae credinwyr ar hyd y canrifoedd wedi darganfod Un sydd yn barod ac yn awyddus i rannu yn eu gofidiau, eu hunigrwydd, eu temtasiynau a hyd yn oed yn eu hangau; Un sydd yn barod i fod gyda hwy yn y dyffryn tywyll du, ac a fydd yno yn barod i'w croesawu'r ochr draw.

Mae'n arwyddocaol bod Mathew ar gychwyn ei efengyl yn galw Iesu yn 'Immanuel', sef 'y mae Duw gyda ni.' (Mathew 1:23). Yna ar derfyn ei adroddiad o hanes bywyd a gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu Grist, daw yn ôl i'r man y cychwynnodd gyda'r addewid o bresenoldeb y Crist byw gyda'i bobl bob amser ac ym mhob man. (Mathew 28:20).

### Gyda chwi

Dywed Paul am ei brawf cyntaf o flaen Nero, yr Ymherodr Rhufeinig, 'Yn y gwrandawiad cyntaf o'm hamddiffyniad, ni safodd neb gyda mi; aeth pawb a'm gadael; peidied Duw â chyfrif hyn yn eu herbyn. **Ond safodd yr Arglwydd gyda mi, a rhoddodd nerth imi.'** (II Timotheus 4:16,17). Y fath gysur oedd presenoldeb a nerth yr Arglwydd i Paul wrth iddo sefyll ei brawf gerbron Nero.

Cyflwynodd Prifysgol Glasgow radd doethur i David Livingstone. Wedi'r seremoni raddio bu'n annerch y myfyrwyr. Roedd ei afiechydon lu wedi gadael eu hôl arno. Roedd ei fraich chwith wedi ei brathu gan lew ac yn hongian yn llipa ac yn ddiffrwyth. Wedi sôn am y treialon a'r trallodion a'r afiechydon a ddaeth i'w ran yn Affrica dywedodd, 'Hoffech chi i mi ddweud wrthych chi am



yr hyn sydd wedi fy nghynnal drwy'r holl flynyddoedd bum yn alltud ymhlith pobl nad oeddwn yn deall eu hiaith, pobl roedd eu hymddygiad tuag ataf yn ansicr ac yn fynych yn elyniaethus?' Dyma'r ateb – addewid yr Arglwydd Iesu Grist, 'Wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Ar yr addewid hwn mi fentrais y cyfan, ac ni chefais fy ngadael i lawr o gwbl.'

### Ymwybyddiaeth

Medr ymwybyddiaeth o bresenoldeb yr Arglwydd fod yn real i'r mwyaf dinod o blant dynion. Gwrandewch ar yr hyn a ddywed Duw, 'Er fy mod yn trigo mewn uchelder sanctaidd, rwyf gyda'r cystuddiol ac isel ei ysbryd' (Eseia 57:15). Boed i'n profiad ein galluogi i dystio gyda Ben Davies:

Wrth rodio gyda'r Iesu
ar y daith,
ein calon sy'n cynhesu
ar y daith:
cawn wres ei gydymdeimlad,
a'n cymell gan ei gariad
a grym ei atgyfodiad
ar y daith:
O diolch byth am Geidwad
ar y daith.

Ceir troeon garw ar daith bywyd. Ni chaiff plentyn ffydd addewid y bydd yn osgoi doluriau ar ei daith yn hyn o fyd ond caiff addewid o gwmni ac ymgeledd yr Hollalluog Dduw.

Pan oeddwn i'n fyfyriwr un ar hugain oed yn gwneud ymarfer dysgu yn Ysgol Rhydfelen cefais y fraint o gyfarfod â Hywel Morris Griffiths a oedd yn athro Cemeg yn yr ysgol. Bu farw yn dilyn brwydr hir yn wyneb afiechyd yn 55 mlwydd oed. Ceir deuddeg emyn o'i eiddo yng *Nghaneuon Ffydd* sy'n datgelu adnabyddiaeth Hywel o'i Waredwr ynghyd â'i brofiad o nerth ac ymgeledd yr Arglwydd Iesu Grist. Dyma un pennill o un o'i emynau.

Pan fwy'n cydio'n dynn
yng ngodre gwisg fy Arglwydd Grist,
fe lifa nerth i'm hysbryd llesg:
'rwy'n dy garu, Iôr. (795)

Profodd fel y wraig honno yn y dyrfa fawr ar y ffordd i dŷ Jairus bod estyn i gyffwrdd â gwisg yr Arglwydd Iesu mewn ffydd ac ymddiriedaeth yn dwyn nerth a chysur i ddyn pa beth bynnag yw ei anghenion a'i amgylchiadau.

Cyn mynd i fy nghyhoeddiad ar fore Sul byddaf yn gweddïo am fendith Duw ar yr oedfa yn Seion. Wrth wynebu blwyddyn newydd gweddïaf ar i chi brofi agosrwydd a phresenoldeb Duw ac y cawn yn nerth yr Ysbryd Glân dyfu yn ein hadnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist gan adael iddo ef ein mowldio er mwyn i ni ymdebygu iddo. Yr ydym yn byw mewn byd sydd mewn gwir angen am ddynion a merched Crist-debyg sy'n efelychu ei gariad a'i ddaioni ac yn gyfryngau yn ei law i ledaenu ei Deyrnas.

Boed bendith Duw arnoch yn bersonol ac ar gymdeithas gynnes Teulu'r Ffydd yn Seion.

**Andrew Lenny**

# Dathliadau Nadolig capel Hope-Siloh, Pontarddulais – parhad

gwasanaeth golau cannwyll a osododd naws addas ar gyfer yr ŵyl. Aeth arian y casgliad y noson hon at elusen Forget Me Not, sy'n elusen dementia lleol yng Ngorseinon. Wrth gwrs, yn y cyfnod hwn rhaid mynd ati i fwynhau carolau, a dyna beth a wnaethpwyd ar nos Lun 22 Rhagfyr. Cafwyd cyfle i ni gyd ymgasglu o gwmpas ein coeden Nadolig a chanu carolau yng nghanol y pentref. Hyfryd oedd gweld aelodau o'r gymuned yn ymuno gyda ni. Braf oedd gweld festri'r capel yn llawn hefyd ar gyfer Gwasanaeth Cymun Undebol y pentref. Rhaid diolch i bawb a fu wrthi'n helpu yn nathliadau'r capel dros gyfnod y Nadolig. Gwaith tîm ar ei orau!

**Heledd Clarke**

Yr Adran
Gydenwadol

IONAWR 15 2026 RHIF 255

# Paratoi ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2026 “Un Corff, Un Ysbryd”




“Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw’r gobaith sy’n ymhlyg yn eich galwad.” (Effesiaid 4:4)

Ar gyfer eleni, mae’r gweddïau a’r myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol wedi’u paratoi gan ffyddloniaid Eglwys Apostolaidd Armenia ynghyd â’u brodyr a’u chwiorydd yn yr Eglwys Gatholig ac Eglwysi Efengylaidd Armenia. Mae’r adnoddau hyn yn seiliedig ar draddodiadau canrifoedd oed o weddi ac ymbil a arferir gan bobl Armenia, ynghyd ag emynau sydd wedi’u gwreiddio ym mynachlogydd ac eglwysi hynafol y wlad; mae rhai o’r emynau hynny’n deillio o’r bedwaredd ganrif. Mae’r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2026 yn estyn gwahoddiad i elwa ar y dreftadaeth Gristnogol gyffredin hon ac i ymchwilio’n ddyfnach i’n cymdeithas yng Nghrist, sy’n uno Cristnogion ledled y byd.

Mae undod yn ofyniad dwyfol sy’n rhan annatod o’n hunaniaeth Gristnogol. Mae’n cynrychioli hanfod galwad yr Eglwys – galwad i arddangos undod tangnefeddus ein bywyd yng Nghrist yng nghanol ein hamrywiaeth. Mae’r undod dwyfol hwn yn ganolog i’n cenhadaeth ac yn cael ei gynnal gan gariad dwfn Iesu Grist, sydd wedi gosod i ni alwedigaeth unedig.

Trwy gydol yr Ysgrythurau Sanctaidd, mae galwad Duw at undod yn atseinio o’r amseroedd cynharaf. Gan ddechrau gyda’r Hen Destament, mae erfyniad Abram ar Lot yn pwysleisio’r awydd dwyfol am dangnefedd a chytgord ymhlith y ffyddloniaid: ‘Peidied â bod cynnen rhyngom, na rhwng fy mugeiliaid i a’th rai di, oherwydd perthnasau ydym’ (Genesis 13:8). Mae’r Salmau yn dathlu prydferthwch undod ymhlith pobl Dduw, gan ddatgan, ‘Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw’n gytûn.’ (Salm 133:1)

Yn y Testament Newydd, mae gweddi Iesu yn Ioan 17:21 yn galw ar gredinwyr i fod yn un fel y mae yntau a’r Tad yn un, gan ddangos bod ein hundod wedi’i wreiddio yn ein perthynas â Christ ac yn ein cenhadaeth ynghyd o rannu’r Newyddion Da. Mae gorchymyn sylfaenol Iesu ar i ni garu ein gilydd fel y mae yntau wedi ein caru ni (Ioan 13:34–5) yn cadarnhau mai’r cariad hwnnw yw hanfod ein hundod.

Mae epistolau Paul yn pwysleisio pwysigrwydd undod o fewn yr Eglwys, gan ein hannog i fyw yn deilwng o’n galwedigaeth gyda gostyngeiddrwydd, addfwynder, amynedd, a chariad (Effesiaid 4:1–3). Mae Effesiaid 4:4 yn crynhoi dysgeidiaeth Paul ynghylch undod, gan bwysleisio yma hefyd fod dilynwyr Crist yn cynrychioli ‘un corff … ac un Ysbryd’, wedi’u huno mewn un gobaith.

Gan bwysleisio pwysigrwydd undod Cristnogol, mae Paul yn ychwanegu ‘un Ysbryd’, gan gyfeirio at yr Ysbryd Glân, sy’n cynnal y gymdeithas honno ac yn grymuso’r Eglwys i gyflawni ei chenhadaeth. Mewn byd â thraddodiadau a mynegiadau amrywiol, a rhanedig yn aml, o’r ffydd Gristnogol, mae Effesiaid 4:4 yn ein hatgoffa bod yr holl gredinwyr yn rhan o ‘un corff’ Crist. Nid yw’r undod hwn yn fater o unffurfiaeth ond yn hytrach o ymrwymiad cyffredin i wirioneddau craidd y ffydd Gristnogol. Mae’n dystiolaeth bwerus i rym trawsffurfiol yr Ysbryd Glân pan fo Cristnogion o gefndiroedd amrywiol yn dod ynghyd gyda nod a gweledigaeth gyffredin.

Trwy ei harferion a’i dysgeidiaeth, mae Eglwys Apostolaidd Armenia yn ein hysgogi i fyfyrio’n ddwys ynghylch hanfod undod o fewn Corff Crist yn gyffredinol. Wrth gyduno yng ngeiriau’r Credo, bydd y ffyddloniaid yn datgan eu bod yn credu mewn ‘un Eglwys lân Gatholig ac Apostolig’, a thrwy hynny’n proffesu bod yr undod hwnnw’n ganolog i’w bywyd ysbrydol. Wrth gofleidio’r undod hwn, a byw yn unol â hynny, mae Eglwys Apostolaidd Armenia nid yn unig yn anrhydeddu ei thraddodiadau sanctaidd ei hun ond hefyd yn cyfrannu o ddifrif tuag at undod ehangach Eglwys fyd-eang Crist.

Bydded i ni gofleidio’r alwad ddwyfol hon at undod, nid fel delfryd haniaethol ond fel mynegiant hanfodol o’n ffydd. Mewn byd lle mae Corff Crist wedi’i glwyfo gan raniadau o fewn traddodiadau a chyffesiadau, yn ogystal â rhaniadau rhwng y rhain, mae galwad yr Apostol am undod yn cael ei gyfeirio at bob un ohonom, nid yn unig fel cymunedau eglwysig ar wahân, ond hefyd fel unigolion o fewn ein cymunedau. Trwy fyw mewn undod, byddwn nid yn unig yn tystio i gariad a grym ein Harglwydd Iesu Grist ond hefyd yn ymgorffori hanfod yr hyn a ddysgodd. Wrth i ni gefnogi ein gilydd a dathlu ein doniau a’n galluoedd amrywiol, bydded i ni adlewyrchu calon Crist a hyrwyddo ei waith ar y ddaear.

Mae’r holl adnoddau addoli a thrafod ar gyfer yr wythnos ar gael yn rhad ac am ddim yn Gymraeg a Saesneg o wefan CTBI: https://ctbi.org.uk/resources/week-of-prayer-for-christian-unity-2026/




## Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, Cae Sioe Môn, 23–9 Mai 2026: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul **am 7 o'r gloch nos Lun, 2 Mawrth 2026, yng Nghapel Lôn y Felin, Llangefni** (ynghanol y dref, wrth ymyl siop Iceland a maes parcio mawr canol y dref), i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Môn eleni. Edrychwn ymlaen at ddechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, a gynhelir rhwng 23 a 29 Mai ar Gae Sioe Môn, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno. **Noder y newid yn y trefniadau eleni: bydd yr Eisteddfod yn dechrau ar fore Sadwrn ac yn cael ei chynnal am saith diwrnod tan y nos Wener ddilynol.**

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y trefniadau. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag
Aled Davies: 07894580192 neu
aled@ysgolsul.com

## Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 20–23 Gorffennaf 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 12.30 o'r gloch bnawn Mawrth, 3 Mawrth 2026, yng Nghanolfan y CCRW ar Faes y Sioe yn Llanelwedd**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod y sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir y sioe yn ôl yr arfer yn Llanelwedd, ar gyrion Llanfair ym Muallt, rhwng 20 a 23 Gorffennaf, a bydd gan yr enwadau stondin/uned yno (uned rhif D-413) i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn darparu te a choffi; dewch â'ch cinio gyda chi wrth i ni ddechrau ar ein trafodaethau.

Am fanylion, pellach cysylltwch ag
Aled Davies: 07894580192 neu
aled@ysgolsul.com




## Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, ger Aberteifi, 1–8 Awst 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 7 o'r gloch nos Iau, 5 Mawrth, yng Nghapel Mair, Aberteifi**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar gyrion tref Aberteifi, a hynny rhwng 1 a 8 Awst, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd y maes rai milltiroedd i'r de o Aberteifi, a bydd gennym ninnau ein gofod arferol o ddeg uned. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr eisteddfod. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag
Aled Davies: 07894580192 neu
aled@ysgolsul.com

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 12 – Ymson Rachel

Ro'n i'n gwylio'r praidd fel yr oeddwn wedi'i wneud droeon o'r blaen. Arhosai'r defaid yn agos ataf, yn chwilio am gynhesrwydd. Roedd y garreg dros geg y pydew yn dal yn ei lle, yn disgwyl i ni i gyd i fod yno cyn cael ei symud.

Gwelais ddieithryn o fy mlaen, yn siarad â'r bugeiliaid eraill. Trodd y dieithryn a chodi ei olygon. Newidiodd rhywbeth yn ei osgo ac fe deimlais wefr yn symud drwy fy nghorff. Digwyddodd rhywbeth rhyngom, yr eiliad honno, er nad oeddem wedi dweud yr un gair wrth ein gilydd eto.

Heb ddweud dim, aeth at garreg y pydew a dechrau ei symud. Fedrwn i ddim credu'r hyn ro'n i'n ei weld! Fel arfer, byddai'r bugeiliaid i gyd yn dod at ei gilydd i symud y garreg; roedd hi mor drwm fel bod angen bôn braich pob un ohonynt. Ond dyma hwn yn dechrau ei symud ar ei ben ei hun! Llanwodd fy nghalon ag edmygedd.

Wedi iddo'i symud heb unrhyw help, cymerodd ei amser i roi dŵr i'r defaid. Roedd y munudau hynny'n teimlo fel rhai hir iawn. Ac yna, yn sydyn, roedd wrth f'ymyl. Daeth yn agos ataf, mor agos fel fy mod yn gallu teimlo'i anadl ar fy wyneb. Ac yna fe wnaeth fy nghusanu! Fe ges i fraw, nid oherwydd y gusan, ond oherwydd iddo wylo! Do'n i ddim yn disgwyl gweld emosiwn fel hyn, yn enwedig mewn dyn cryf. Yna dywedodd ei fod yn nai i 'nhad; roedd o'n perthyn i mi, yn un ohonom ni!

Rhedais adre i ddweud wrth fy nhad. Ychydig a wyddwn am y stori gymhleth oedd ar fin dechrau. Fi oedd y ferch ieuengaf, yr harddaf, yr un siapus. Roedd gan fy chwaer hynaf, Lea, ruddin cymeriad. Doedd hi ddim mor brydferth, ond roedd pobl yn ei pharchu. Ro'n i'n ei charu ond gwyddai'r ddwy ohonom am y gystadleuaeth oedd yn bodoli rhyngom.

Roedd Jacob wedi syrthio mewn cariad â mi. Gwnaeth fy nhad iddo weithio am saith mlynedd cyn iddo gael fy mhriodi. Aeth y blynyddoedd heibio fel eiliadau oherwydd ei gariad tuag ataf. Ro'n i'n hapus ac yn gwybod y byddai'r aros amdano'n cael ei wobrwyo. Yn anffodus, mae gan sicrwydd ffordd ryfedd o newid i fod yn ansicrwydd. Ar noson yr uno, nid fi gafodd fynd i wely Jacob. Dwi'n dal i deimlo'r siom o gael fy mradychu gan fy nheulu fy hun. Lea oedd y ferch hynaf a chredai fy nhad, fel pawb arall, mai hi ddylai gael priodi yn gyntaf.

Ro'n i'n dal i'w garu ac roedd e'n dal yn dyheu amdanaf fi. Arhosodd amdanaf a gweithio am saith mlynedd arall er fy mwyn! Fe ges i fod yn wraig iddo; do, ond yr ail wraig. Roedd yn rhaid ei rannu. Esgorodd Lea ar blant; allwn i ddim cenhedlu. Ymbiliais yn daer ar Dduw i roi plant imi. Wylais o flaen Jacob a dweud bod pethau ar ben arnaf! Ro'n i'n llawn eiddigedd ac wedi dysgu nad yw cariad yn lleddfu dyhead, ond yn hytrach yn rhoi min ar y dyheu!

Ond arhosais. Er fy mod eisiau dod â 'mywyd i ben, teimlais ym mêr fy esgyrn fod Duw am imi ymdopi. Rwy'n gwybod erbyn hyn nid yn unig fod fy stori i'n ymwneud â phrydferthwch a chwympo mewn cariad, ond hefyd yn ymwneud ag amynedd a gobaith. Mae gobaith weithiau wedi'i daenu'n haen denau drosom, ond rhuddin i ddal arno ydyw. Daliais yn dynn; daliwch chwithau hefyd!

**Holi**

- Sut mae stori Rachel yn herio'r syniad bod ffafr Duw bob amser yn ymddangos fel bendith neu gyflawniad uniongyrchol ar unwaith?
- Ym mha ffordd mae systemau ei hoes yn siapio dioddefaint Rachel? Ydi Duw yn dal i weithio o fewn yr amgylchiadau hynny? Oes esiamplau o hyn yn digwydd yn ein hoes ni?
- Sut mae cael ei chymharu â'i chwaer yn effeithio ar Rachel? Mae cymharu yn broblem fawr yn gymdeithasol heddiw; beth allwn ni ei wneud i ystwytho'r broblem ynom ein hunain ac i helpu eraill?
- Mae Rachel, yn ei gwewyr, yn methu gweld y ffordd ymlaen. Beth mae'r ymbil enbyd hwn (gweler Genesis 30:1) yn ei ddweud am ddyfalbarhad yn wyneb anobaith? Wyddoch chi am rywun sydd angen teimlo bod Duw yno drwy'r anobeithio?

**Gweddi**

Er inni gael ein siomi, rwyt Ti yno.
Er inni brofi beth yw anobeithio, rwyt Ti yno.
Er inni fethu gweld y ffordd ymlaen, rwyt Ti yno.
Er inni ddyheu a methu gwireddu ein breuddwyd, rwyt Ti yno.
Er inni gael ein bradychu, rwyt Ti yno.
Er inni wneud y pethau hyn i bobl eraill, rwyt Ti yno. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

***S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 18 Ionawr, am 7:30yh – *Hoff Adnodau'r Cymry***
Bydd Nia Roberts yn cyflwyno detholiad o hoff adnodau yng nghwmni Cleif Harpwood, Rachael Garside ac Elin Maher – tri o'r cyfranwyr i'r gyfrol *Hoff Adnodau'r Cymry*. Daw'r canu mawl o gymanfa gyhoeddi Eisteddfod y Garreg Las 2026 yng Nghapel y Bedyddwyr, Blaen-ffos, dan arweiniad Sioned Page Jones, a chawn berfformiad gan Fechgyn Bro Taf.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 18 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carys Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 18 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Emma Roberts, Abertawe

# Nadolig llawen a chofiadwy yng nghapel Saron, Creunant

Bu cyfnod y Nadolig eleni yn un prysur, cynnes a llawen iawn yng nghapel Saron, gyda chyfres o weithgareddau a gwasanaethau yn dwyn ynghyd yr eglwys a'r gymuned ehangach. Dechreuwyd y dathlu gyda bore coffi'r Nadolig, a ddenodd dyrfa dda o aelodau a ffrindiau'r capel. Cafwyd cyfle i fwynhau sgwrs, cwmni da a lluniaeth, gan godi arian a chryfhau'r ysbryd cymunedol sydd mor ganolog i fywyd Saron.

Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd gwasanaeth carolau'r band pres, pan lenwodd seiniau'r emynau dwyieithog holl furiau'r capel. Cymerodd y gynulleidfa ran frwd yn y canu, a chafwyd awyrgylch Nadoligaidd arbennig iawn wrth i'r gerddoriaeth bwerus gyd-fynd â'r neges Gristnogol.

Cafodd gwasanaeth carolau'r plant groeso cynnes hefyd. Bu plant y capel yn disgleirio wrth adrodd, canu a chyflwyno stori'r geni, gan atgoffa pawb o bwysigrwydd rhoi lle canolog i'r genhedlaeth ifanc ym mywyd yr eglwys. Roedd eu hyder a'u brwdfrydedd yn destun balchder mawr.

Cynhaliwyd y gwasanaeth noswyl Nadolig am hanner nos mewn awyrgylch tawel a myfyrgar, gan ddod â'r tymor i'w uchafbwynt ysbrydol. Wrth ganu carolau traddodiadol yn y ddwy iaith a gwrando ar y neges, cafodd pawb gyfle i fyfyrio ar ystyr gwirioneddol y Nadolig.

Daeth cyfnod y Nadolig i ben mewn ffordd hynod lawen gyda dathliad priodas ar 28 Rhagfyr, pan briodwyd Nerys a Matthew Nicholas yng Nghapel Saron. Roedd yn achlysur arbennig iawn i'r capel, gyda phlant y capel yn chwarae rhan amlwg fel 'morynion priodas', gan ychwanegu at lawenydd, cynhesrwydd a harddwch y dydd.

Wrth edrych yn ôl ar y Nadolig eleni, mae'n amlwg bod Capel Saron, yn parhau i fod yn ganolbwynt ffydd, cymuned a chroeso, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at flwyddyn newydd – llawn o weithgareddau a bendithion.

**Rhys Locke**






# Anrhydeddu oes o wasanaeth dros yr iaith Gymraeg a Christnogaeth

Y mae'r Parchg Euros Jones-Evans, o Ystradowen yn Nyffryn Tawe, wedi derbyn anrhydedd mawr gan brifysgolion achrededig yn fyd-eang am ei waith oes i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gristnogol. Mewn seremoni raddio o fri yn San Francisco ar 1 Tachwedd 2025, derbyniodd ddwy radd Doethur Anrhydeddus (Ph.D.) – un gan Brifysgol Dunster, y Swistir, a'r llall gan Brifysgol Orange County, California. Yn ogystal, dyfarnwyd iddo ddau statws Athro Prifysgol Anrhydeddus (Honorary Professorship) gan Brifysgol Kennedy a Phrifysgol Thames, Paris. Trefnwyd yr anrhydeddau hyn drwy Aimlay, platfform addysgol sydd â'i bencadlys yn New Delhi, India, sy'n gweithio i sicrhau bod cyflawniadau eithriadol yn cael eu cydnabod gan brifysgolion o fri ac yn cael eu dathlu ar lefel fyd-eang.

Trwy gydol ei yrfa ragorol fel athro ac addysgwr, bu Euros yn arloeswr wrth hyrwyddo dysgu'r Gymraeg ledled Cymru a thu hwnt. Mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrau addysgu sydd wedi cael eu defnyddio gan ddysgwyr ac athrawon yn y wlad hon ac ar draws y byd ers dros 35 mlynedd. Arweiniodd ei greadigrwydd a'i ysbryd arloesol ef hefyd i ddyfeisio a phatentu dyfais gyfieithu Saesneg-Cymraeg, wedi'i chynllunio'n benodol i helpu disgyblion ddysgu'r iaith yn gyflymach ac yn fwy. Oherwydd ei arbenigedd a'i weithgarwch ym maes addysg iaith, fe'i penodwyd yn brif arholwr ar gyfer y cwrs estynedig Cymraeg Ail Iaith, ac yn ddiweddarach gwasanaethodd fel hyfforddwr cenedlaethol, gyda chyfrifoldeb dros weithredu'r Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 1989.

Yr un mor ysbrydoledig yw ei wasanaeth oes fel pregethwr a gweinidog yr efengyl. Mae ei waith ysgrifennu yn y maes hwn wedi dod â chysur ysbrydol i nifer dirifedi o ddarllenwyr. Mae ei lyfr dwys a theimladwy, *Gweddïo'r Salmau* a gyhoeddwyd yn 2024 ar ôl saith mlynedd o waith yn ystod ei adferiad o salwch difrifol, yn dystiolaeth ryfeddol o'i ffydd a'i ddyfalbarhad.

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## Y Pêr Ganiedydd

Ar 11 Ionawr 1791 bu farw un o ffigurau mwyaf dylanwadol hanes Cristnogaeth yng Nghymru, sef Williams Pantycelyn. Ers dros ddwy ganrif, mae ei enw, ei waith a'i ffydd wedi parhau i atseinio yng nghalonnau pobl Dduw, ac yn arbennig drwy'r emynau lu a adawodd ar ei ôl. Mae'n briodol, felly, i ni gymryd amser i'w gofio, i ddiolch am ei etifeddiaeth, ac i ystyried beth allwn ni ei ddysgu o'i fywyd a'i gariad dwfn at y Gwaredwr.





### Athrylith

Roedd Williams Pantycelyn yn fardd, yn awdur, yn feddyliwr, ac yn ddiwinydd, ond yn fwy na dim, roedd yn Gristion oedd â pherthynas agos, fyw a dwfn â'r Arglwydd Iesu Grist. Amcangyfrifir iddo ysgrifennu bron i fil o weithiau gwahanol – emynau, cerddi, traethodau a llenyddiaeth grefyddol – ac mae'r trysor hwnnw wedi siapio addoliad Cymru hyd heddiw. Mae ein llyfrau emynau yn llawn o'i waith, ac anodd dychmygu addoliad Cymraeg heb lais Williams Pantycelyn yn seinio drwyddo. Yr hyn sy'n gwneud ei emynau mor arbennig yw'r ffaith eu bod yn tarddu o brofiad personol dwfn. Nid geiriau gwag nac athrawiaeth sych sydd ynddynt, ond tystiolaeth byw o galon sydd wedi ei choncro gan gariad Crist. Roedd ganddo berthynas agos iawn â'r Gwaredwr, ac mae'r agosatrwydd hwnnw'n amlwg ym mhob pennill. Pan fyddwn yn canu ei emynau, rydym yn cael ein tynnu i mewn i'w brofiad ef o ras, maddeuant a gogoniant Iesu. Un o'r emynau sy'n parhau i gyffwrdd â'm calon i yw:

> Arglwydd, arwain trwy'r anialwch,
> Fi, bererin gwael ei wedd.

Yn y geiriau hyn gwelwn ostyngeiddrwydd, dibyniaeth lwyr ar Dduw, a ffydd sy'n edrych ymlaen, hyd yn oed yng nghanol anhawster. Bob tro y caiff yr emyn hwn ei ganu, mae'n fy atgoffa nad ydym ar ein pennau ein hunain ar daith y ffydd, ond fod Crist yn arwain, yn cynnal ac yn darparu.

### Profiad cofiadwy

Flynyddoedd lawer yn ôl, cafodd ein capel y fraint o fynd ar bererindod i Bantycelyn, cartref Williams, a hefyd i'r eglwys lle bu'n addoli. Roedd sefyll yn y mannau hynny yn brofiad cofiadwy iawn – profiad a ddaeth â'i hanes yn fyw o'n blaenau. Nid adeiladau neu leoedd yn unig oedd y rhain, ond tystiolaeth o fywyd a gafodd ei roi'n llwyr yng ngwasanaeth Duw. Roedd ymdeimlad dwfn o ddiolchgarwch wrth feddwl am y modd y defnyddiodd Duw ŵr cyffredin i wneud gwaith mor eithriadol.

### Cloddio'n ddyfnach

Wrth gwrs, mae'n wir fod llawer o emynau Williams Pantycelyn yn heriol i genhedlaeth heddiw. Mae'r iaith weithiau'n hen ffasiwn, y ddelwedd yn gyfoethog, a'r diwinyddiaeth yn ddwfn. Ond nid rheswm yw hynny i'w hanwybyddu. Yn hytrach, mae'n wahoddiad i ni astudio, i feddwl, ac i gloddio'n ddyfnach. Trwy wneud hynny, gallwn ddarganfod trysorau ysbrydol sy'n dal yn berthnasol ac yn fyw. Gallwn ddysgu cymaint oddi wrth Williams Pantycelyn – o'i ysgrifau, o'i emynau, ac o'i fywyd Cristnogol. Mae'n ein dysgu am gariad dwfn at Iesu, am ymroddiad llwyr, ac am fywyd sy'n canolbwyntio ar ogoniant Duw. Mewn oes sydd weithiau'n arwynebol, mae ei waith yn ein galw yn ôl at wreiddiau'r ffydd ac at berthynas wirioneddol â'r Gwaredwr. Ein her ni heddiw yw parhau i ddefnyddio ei emynau mewn addoliad, nid fel reliciau o'r gorffennol, ond fel offerynnau byw a all ysbrydoli cariad newydd at Iesu Grist. Trwy eu canu, eu hastudio a'u trysori, gallwn sicrhau bod etifeddiaeth Williams Pantycelyn yn parhau i fendithio'r eglwys a'r genedl am genedlaethau i ddod.

Wrth ei gofio ar ben-blwydd ei farwolaeth, gadewch inni ddiolch i Dduw am ei fywyd, ei waith, a'i dystiolaeth, a gweddïo y byddai gennym ninnau yr un angerdd, ffydd a chariad at y Gwaredwr ag a gafodd ef.

**Rhys Locke**

((Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Capel Newydd, Llandeilo



Plant yr eglwys yn perfformio drama'r geni gyda help rhai o'r bobl ifanc (ddim yn y llun). Roedd pawb gymerodd ran yn arbennig o dda ac wedi mwynhau yn fawr iawn

**Elizabeth Evans**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Nadolig Gofalaeth Caerfyrddin



*Ysgol Sul y Priordy, Caerfyrddin*



*Pobl ifanc y Priordy, Caerfyrddin*



*Elim, Ffynnonddrain*



*Cana, Bancyfelin*

# Anrhydeddu oes o wasanaeth – *parhad*



Er cydnabyddiaeth i'w waith toreithiog, penderfynodd Aimlay gyhoeddi ei fywgraffiad o'r enw *Navigating the Minority Footpath*, sy'n olrhain ei daith oes wrth hyrwyddo dau leiafrif: yr iaith Gymraeg a'r ffydd Gristnogol, sydd bellach yn ffydd leiafrifol yng Nghymru fodern. Gwahoddwyd ef hefyd i ysgrifennu *Grand Mastery Handbook*, a gyhoeddodd o dan y teitl *The Healing Pathway – A Christian's Journey of Faith, Healing and Service*. Lansiwyd y cyfrolau hyn yn ystod y seremoni graddio yn San Francisco.

Ychwanegwyd at yr anrhydeddau hyn pan dderbyniodd y Parchg Jones-Evans wobr Iconic Felicitation of Exemplary Achievements (IFEA), sy'n cydnabod unigolion eithriadol sydd wedi gwneud cyfraniadau pwysig ar draws meysydd amrywiol. Fe'i hetholwyd hefyd yn llysgennad byd-eang Aimlay ar gyfer 2025, er cydnabyddiaeth i'w ymroddiad oes i'r iaith, addysg a ffydd. Ef oedd yr unig un i dderbyn yr anrhydedd hon am 2025. Dywedodd Euros, 'Feddyliais i erioed y byddwn yn 79 oed yn derbyn y fath anrhydeddau. Yn y seremoni raddio yn San Francisco, cefais gyfle i siarad am fawredd a pherseinedd yr iaith Gymraeg a hynny o flaen cynulleidfa fyd-eang o ysgolheigion.'

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*